# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT2 01-05(p2)

Dyddiad: 13 Ionawr 2005
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Mesur Trafnidiaeth (Cymru)

### Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnwys a sefyllfa ddiweddaraf Mesur Trafnidiaeth (Cymru).

### Crynodeb / Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i roi ei sylwadau ar gynnwys y Mesur.

### Y Cefndir

3. Cyhoeddwyd Mesur Trafnidiaeth (Cymru) ar 27 Mai. Bwriad y Mesur drafft oedd rhoi pwerau cydlynol i'r Cynulliad ymdrin â thrafnidiaeth am y tro cyntaf, gan ei alluogi i ddatblygu ei strategaeth trafnidiaeth integredig. Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â chynnwys manwl y Mesur drafft pan graffwyd arno ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig cyn y broses ddeddfu. Bu ymgynghori cyhoeddus eang hefyd. Ar y cyfan cafodd y Mesur drafft dderbyniad da, er bod CLlLC wedi mynegi rhai pryderon.

4. Cyflwynwyd Mesur Trafnidiaeth (Cymru) yn Nhy'r Cyffredin ar 15 Rhagfyr ac fe'i cyhoeddwyd y diwrnod canlynol. Mae'r Mesur a'r Nodiadau Esboniadol ar gael ar wefan y Senedd yn http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmbills/015/2005015.htm

5. Yn gryno, byddai'r Mesur:

- Yn rhoi dyletswydd ar y Cynulliad i ddatblygu a gweithredu polisi trafnidiaeth integredig, ac i gyhoeddi Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn nodi'r polisïau hynny;
- Yn sicrhau bod cynlluniau trafnidiaeth lleol yn cael eu paratoi a'u gweithredu yn unol â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru;
- Yn darparu ar gyfer trefniadau i weithio ar y cyd a chael cyd-awdurdodau trafnidiaeth fel bod swyddogaethau trafnidiaeth lleol yn cael eu cyflawni ar sail ranbarthol;

- Yn caniatáu i'r Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, lle na fyddent ar gael fel arall;

- Yn caniatáu i'r Cynulliad roi cymorth ariannol i wasanaethau awyr a chyfleusterau meysydd awyr, lle na fyddent ar gael fel arall;

- Yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu Pwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru.

6. Mae'r Mesur a gyhoeddwyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau i'r Mesur drafft, gan adlewyrchu'r craffu arno cyn y broses ddeddfu, yr ymgynghoriad cyhoeddus a chanlyniad yr adolygiad o'r rheilffyrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Soniwyd am y newidiadau hyn yn fy ymateb ar 3 Tachwedd i adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur drafft. Yn benodol:

## Cymal 1: Dyletswydd Drafnidiaeth Gyffredinol

Gwnaed gwelliant i'r ddyletswydd drafnidiaeth gyffredinol i gynnwys cyfeiriad agored i ddatblygu polisïau ar gyfer hybu cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy.

Gwnaed gwelliant er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau a'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau i feicwyr yn ogystal â cherddwyr.

## Cymal 2: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Gwnaed gwelliant i'r ddyletswydd i ymgynghori wrth baratoi neu ddiwygio Strategaeth Trafnidiaeth Cymru er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ymgynghori ag awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal ag awdurdodau yn Lloegr sy'n ffinio â Chymru.

## Cymal 3 (Atodlen 1): Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol

Gwnaed gwelliant mewn perthynas â chymeradwyo cynlluniau trafnidiaeth lleol, fel y byddai'n rhaid i benderfyniad gan y Cynulliad i wrthod cymeradwyo cynllun gael ei wneud gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

## Cymal 4: Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau trafnidiaeth

Gwnaed gwelliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori ag awdurdodau lleol cyn rhoi, amrywio neu ddiddymu cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

## Cymal 5: Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth

Gwnaed gwelliant i ddarparu bod yn rhaid i fwyafrif yr aelodau, pan fydd y Cynulliad yn penderfynu sefydlu Cyd-awdurdod Trafnidiaeth, gael eu penodi gan yr awdurdodau lleol y mae eu hardaloedd yn dod o dan yr awdurdod.

## Cymalau 8, 9 a 10: Darpariaethau rheilffyrdd

Mae'r darpariaethau rheilffyrdd wedi'u dileu o'r Mesur. Byddent wedi rhoi pwer i'r Cynulliad roi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol mewn perthynas â gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru sy'n cael eu darparu o dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn dod i ben ac mae trefniadau tebyg ar gyfer y Cynulliad o dan y strwythur rheilffyrdd newydd yn cael eu cyflwyno ar wahân yn y Mesur Rheilffyrdd.

## Cymalau newydd: Pwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru

Mae darpariaeth newydd wedi'i chynnwys i alluogi'r Cynulliad i sefydlu Pwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru. Bydd y Pwyllgor newydd yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr pob dull o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

## Goblygiadau Ariannol

7. Mae goblygiadau ariannol y Mesur wedi'u crynhoi yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol sydd wedi'i gyhoeddi. Ni fydd y dyletswyddau newydd a roddir ar y Cynulliad a'r awdurdodau lleol mewn perthynas â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r system cynllun trafnidiaeth lleol yn golygu costau neu feichiau ychwanegol, gan fod y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwy eisoes yn digwydd. Byddai creu unrhyw Gyd-Awdurdod Trafnidiaeth yn golygu cost rhedeg ychwanegol a amcangyfrifir yn oddeutu £1 miliwn y flwyddyn, gydag un gost sefydlu o £100,000 i £200,000 ar gyfer pob awdurdod. Byddai costau rhedeg Pwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru tua £300,000 y flwyddyn, gydag un gost sefydlu o tua £50,000.

8. Byddai unrhyw gynnig i sefydlu Cyd-Awdurdod Trafnidiaeth neu'r Pwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn agored i ymgynghoriad ac asesiad effaith reoleiddiol cyn y gellid ei weithredu gan y Cynulliad.

## Themâu Trawsbynciol

9. Bydd y Mesur hwn, ynghyd â'r Mesur Rheilffyrdd, yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi trafnidiaeth integredig, sydd â rôl allweddol i'w chwarae er mwyn bodloni agenda economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad.

## Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd

10. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar gynnwys y Mesur.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Swyddog Cyswllt: Martin Stevenson, Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth, est 6520.